

Ymlaen: Interniaeth y Senedd ar gyfer graddedigion o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Ymgysylltu



Yr interniaeth

Rydym am gynnig interniaeth hyfforddi 12 mis â thâl i bedwar graddedig o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig. Bydd yr interniaid yn cael eu gosod mewn amrywiol feysydd yn y sefydliad - yn y ddogfen hon ceir rhagor o wybodaeth am y lleoliad yn y tîm Ymgysylltu. Ni fydd yr interniaid yn cael eu cyflogi gennym ni ac nid yw'r interniaeth yn cynnig nac yn gwarantu rôl barhaol ar ddiwedd y cyfnod o 12 mis. Nod yr interniaeth yw i'r interniaid ddatblygu'r sgiliau, y profiad a'r gallu sy'n ofynnol ar gyfer rôl gyflogedig o fewn Comisiwn y Senedd neu rywle arall.

Mae hyfforddiant yng Nghomisiwn y Senedd yn golygu y byddwch wrth wraidd gwleidyddiaeth Cymru, gan ddatblygu eich sgiliau a'ch gwybodaeth ar y ffordd orau o lywio gweithle prysur a chyffrous lle mae deddfau Cymru yn cael eu llunio. Mae'r interniaeth yn gyfle gwych sydd wedi'i gynllunio i roi'r ddealltwriaeth a'r gallu ichi ddatblygu o fewn sefydliad amrywiol a chynhwysol.

Cyfleoedd datblygu a gynigir

Yn ystod yr interniaeth, byddwch yn cael cefnogaeth barhaus gan ein tîm Datblygu Sefydliadol. Byddant yn cynnig cyfoeth o adnoddau a chefnogaeth, gan sicrhau bod gennych yr holl adnoddau sydd eu hangen arnoch i dyfu ac i ffynnu yn y Senedd. Byddant hefyd yn trefnu cyrsiau a digwyddiadau hyfforddi allanol i annog eich dysgu ynghyd â chynnig yr holl gyfleoedd gwych mewn dysgu a datblygu a roddir i'n staff.



Croeso gan Bennaeth y Gwasanaeth



Laurian Hubbard, Pennaeth Ymgysylltu

Diolch am eich diddordeb mewn ymuno â Chynllun Interniaeth Comisiwn y Senedd, yn ein hadran Gwasanaethau Ymgysylltu sydd newydd ei chreu. Mae'r Gwasanaethau Ymgysylltu yn hyrwyddo'r Senedd fel senedd flaenllaw sy'n rhoi llais pobl Cymru wrth wraidd yr hyn a wnawn drwy ymgysylltiad ystyrlon, digwyddiadau, gweithgareddau seneddol ac yn gynyddol yn y byd digidol.

Rydym yn ymrwymedig i wella amrywiaeth ein timau ac mae'n bleser gennyf bartneru â Chymrodoriaeth Windsor er mwyn gallu cynnig y cyfle ichi ddysgu a datblygu eich sgiliau gyda ni.

Rydym yn chwilio am rywun sydd eisiau datblygu sgiliau rhagorol mewn rheoli digwyddiadau a meithrin cysylltiadau â rhanddeiliaid. Dyma'r sgiliau a ddefnyddir gennym i sicrhau bod ein cwsmeriaid, Aelodau o'r Senedd, staff cymorth yr Aelodau, staff y Comisiwn a phartneriaid a threfnwyr allanol yn cael y profiad gorau posibl.

Byddwch yn dysgu sut i gynorthwyo wrth addasu ein cynnig ymgysylltu traddodiadol i'r llwyfannau newydd sydd wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i'r pandemig. Bydd digwyddiadau ar-lein, rhithwir a hybrid bob amser yn rhan o'n cynnig ymgysylltu erbyn hyn. Mae angen inni ddatblygu'r llwyfannau hynny'n barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben fel bod ein gwaith ymgysylltu yn cyrraedd mwy o bobl a grwpiau nag erioed o'r blaen.

Os yw'r interniaeth o ddiddordeb ichi ac yn eich cyffroi, rydym am glywed gennych chi.

Teitl: Interniaeth y Senedd - Gwasanaeth Ymgysylltu

Cewch eich talu £31,388 am y flwyddyn.

Cyfnod: 12 mis - cyfnod penodedig

Gwasanaeth: Gwasanaeth Ymgysylltu

Cymhwysra:

1. Mae gennych yr hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiadau. Sylwer nad yw'r Senedd yn noddi fisâu gwaith
2. Rydych yn byw yng Nghymru
3. Rydych yn dod o gefndir Du, Asiaidd a/neu leiafrif ethnig
4. Rydych wedi byw yn y Deyrnas Unedig neu Iwerddon am o leiaf tair blynedd (mae hyn yn ofynnol ar gyfer y broses fetio diogelwch cenedlaethol)
5. Rydych wedi graddio o'r brifysgol erbyn i'r cynllun ddechrau
6. Rydych ar gael i wneud yr interniaeth rhwng mis Ebrill 2022 a mis Ebrill 2023

Lleoliad: Y Senedd, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

Byddwch yn gweithio yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd fel arfer ond, yn unol â Rheoliadau a chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru, byddwch yn gweithio gartref i ddechrau. Cewch y cymorth a'r cyfarpar angenrheidiol er mwyn caniatáu ichi fodloni gofynion yr interniaeth gartref.

Efallai y bydd gofyn ichi hefyd deithio i leoliadau allanol fel rhan o'ch rhaglen hyfforddi - digwyddiadau'r haf, gweithdai cymunedol ac ati.

Wrth i gyfyngiadau COVID-19 lacio, yn y dyfodol efallai y bydd gofyn ichi fynd i ystâd y Senedd, aros gartref, neu gyfuniad o'r ddau, yn ôl anghenion y cynllun interniaeth.

Rhaglen hyfforddi amser llawn yw hon, er y bydd trefniadau hyblyg yn cael eu hystyried, yn amodol ar fodloni gofynion yr interniaeth.

Efallai y bydd gofyn ichi hefyd fynychu digwyddiadau a gweithdai gyda'r nos ac ar benwythnosau.

Cliriad diogelwch: Penderfynwyd bod angen fetio diogelwch ar lefel 'CTC' ar gyfer yr inerniaethau hyn. O ran yr ymgeiswyr nad oes ganddynt gliriad ar y lefel hon ar hyn o bryd, byddent yn cael eu penodi yn amodol ar gwblhau'r fetio diogelwch yn llwyddiannus ar y lefel hon.

Amdanom ni:

Nod gwaith y tîm Ymgysylltu yw cynyddu dealltwriaeth a diddordeb y cyhoedd yng ngwaith y Senedd. Rydym yn gwneud hyn drwy ddarparu amrywiaeth o wasanaethau, megis teithiau, gweithdai addysg, digwyddiadau ac arddangosfeydd a gynhelir ar yr ystâd yn y Senedd a'r Pierhead ym Mae Caerdydd, ac mewn cymunedau ledled Cymru. Rydym hefyd yn cefnogi gwaith pwyllgorau'r Senedd drwy gynnal gweithgareddau i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rheini sydd â phrofiad byw ar faterion sy'n cael eu trafod yn y Senedd.

Fel intern yn y Gwasanaeth Ymgysylltu, bydd eich hyfforddiant yn cynnwys dysgu sut i gefnogi'r broses o gyflwyno sesiynau ymgysylltu corfforol a rhithwir o'r cysyniad i'r gwerthusiad. I gyflawni hyn, byddwch yn datblygu dealltwriaeth fanwl o waith y Senedd ac yn dysgu sut i'w defnyddio i feithrin cysylltiadau â grwpiau dinesig a grwpiau cymunedol a chynyddu lefel eu dealltwriaeth a'u cyfranogiad yng ngwaith y Senedd. Byddwch hefyd yn datblygu sgiliau a fydd yn eich galluogi i gynorthwyo i greu adnoddau ar gyfer grwpiau ac ymwelwyr â'r ystâd a fydd yn cynyddu eu diddordeb yn y Senedd a'u hyder i gymryd rhan ym musnes y Senedd.

Gan ddatblygu cysylltiadau ag eraill yn y Gwasanaethau Ymgysylltu ac yn y sefydliad ehangach, gan gynnwys Aelodau a'u staff cymorth, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gwella ei sgiliau rhyngpersonol a'i allu i gysylltu'n effeithiol ac yn broffesiynol â gwahanol gynulleidfaoedd.

Erbyn diwedd yr interniaeth, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ennill y sgiliau sy'n angenrheidiol i reoli sawl prosiect mewn ffordd effeithiol ac arwain ar brosiectau ac ymgyrchoedd ymgysylltu â'r gymuned.

Ymarferion hyfforddi allweddol

- Datblygu sgiliau i gefnogi'r broses o gyflwyno rhaglenni ymgysylltu ar yr ystâd ym Mae Caerdydd, ar-lein ac oddi ar yr ystâd, yn bennaf ar draws rhanbarthau de Cymru.
- Cael profiad o sut i ddod o hyd i gysylltiadau â rhanddeiliaid allanol a'u datblygu i gymryd rhan yng ngwaith y Senedd.
- Dysgu sut i gynorthwyo yn y broses o greu a hyrwyddo adnoddau i grwpiau dinesig a grwpiau cymunedol eu defnyddio er mwyn gwella eu dealltwriaeth o waith y Senedd a'u diddordeb ynddi.
- Helpu i ddatblygu gweithgareddau cyfranogi sy'n annog ymwelwyr â'r Senedd i fyfyrío ar daith yr ymwelydd, ei ymgysylltiad â gwleidyddiaeth, neu gael cyfle i ddarparu tystiolaeth tuag at fusnes y Senedd;
- Dysgu sut i reoli cysylltiadau â rhanddeiliaid, a manylion y cyhoedd yr ydym yn ymgysylltu â hwy er mwyn parhau â'u hymgysylltiad â ni yn yr hirdymor.
- Ennill profiad o werthuso gweithgareddau, a chasglu adborth gan gyfranogwyr.

- Cynorthwyo yn y broses o gyflwyno gweithdai, cyflwyniadau, a theithiau gydag elusennau, busnesau, grwpiau cymunedol, a'r cyhoedd yn ehangach.
- Dysgu sut i ddal, creu a chyhoeddi cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.
- Datblygu cysylltiadau a chysylltu ag unigolion allweddol yn fewnol, gan gynnwys Aelodau o'r Senedd a swyddogion i lywio cynlluniau.
- Meithrin y sgiliau angenrheidiol i gefnogi ymdrechion y Senedd i gasglu cynnwys digidol er mwyn helpu i hyrwyddo gweithgareddau, a rhoi adborth i gyfranogwyr.

Sgiliau a chymwysedau penodol:

Mae'r adran hon yn nodi pa sgiliau a phrofiad yr ystyrir eu bod yn hanfodol.

Dylech gyfeirio at y meini prawf a ganlyn yn eich ffurflen gais.

Meini prawf:

1. Sgiliau rhyngpersonol cryf a chysylltiadau â chwsmeriaid;
2. Profiad o ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol drwy amrywiaeth o dechnegau wyneb yn wyneb a thechnegau ar-lein;
3. Sgiliau creu cynnwys ar amrywiaeth o lwyfannau ar-lein;
4. Y gallu i feithrin perthynas waith gref gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

Meini prawf o ran y Gymraeg:

Mae'r sgiliau ieithyddol ar gyfer yr interniaeth hon wedi'u hasesu fel lefel Cymraeg Cwrteisi.

Dylai ymgeiswyr fod yn gallu:

- Ynganu enwau Cymraeg, ateb y ffôn, cyfarch pobl neu gyflwyno pobl i'w gilydd yn ddwyieithog.
- Deall ymadroddion cyfarwydd bob dydd a mynd ati i'w defnyddio.
- Deall testunau byr iawn lle mae pobl yn rhoi gwybodaeth sylfaenol amdanynt eu hunain neu am bobl eraill mewn gohebiaeth ac ar ffurflenni, neu ddehongli cynnwys drwy ddefnyddio'r dechnoleg sydd ar gael.

Os nad yw'r ymgeisydd llwyddiannus yn meddu ar y sgiliau hyn, disgwylir iddo ymrwymo i ddysgu yn ystod cyfnod y cytunir arno.

Rhoddir enghreifftiau o'r hyn i'w ddisgwyl ar gyfer asesu lefel Cymraeg Cwrteisi [ar ein tudalen adnoddau ar y we](#).

Meysydd cymhwysedd ac ymddygiadau'r lefel:

Dyma'r cymwyseddau penodol y bydd disgwyl ichi eu dangos yn y rôl hon.

Bydd y meysydd cymhwysedd a'r ymddygiadau yn cael eu hasesu yn ystod y cam cyfweld ac **nid oes angen** rhoi sylw iddynt yn eich ffurflen gais.

Arweinyddiaeth

- Bod yn weladwy ac yn agored, a sicrhau ei bod yn hawdd siarad â chi.
- Rydych yn herio eraill ac yn barod i gael eich herio.

Gweithio gydag eraill a'u gwerthfawrogi

- Rydych yn meithrin cysylltiadau ac yn ymgynghori â rhwydweithiau yn fewnol ac yn allanol.
- Cyfleu gwybodaeth i'r tîm gan ddefnyddio'r dull mwyaf priodol.

Dysgu a gwella

- Rydych yn edrych tuag allan i ddod o hyd i ffyrdd gwell o wneud pethau a rhannu arferion da ag eraill.
- Rydych yn datblygu dewisiadau, nodi risgiau a manteision a chynnig ffordd ymlaen, monitro cynnydd a gwerthuso canlyniadau.

Sicrhau canlyniadau i'n cwsmeriaid

- Rydych yn chwilio am gyfleoedd i wella lefel y gwasanaeth, a chymryd camau pendant i gael adborth ar y gwasanaeth a ddarperir i gynnal gwasanaeth o safon uchel.
- Bod yn gyfrifol am greu cysylltiadau cynhyrchiol â chwsmeriaid.

Ar ddiwedd yr interniaeth

Ar ôl 12 mis gyda ni, dylai'r interniaid llwyddiannus fod wedi derbyn yr hyfforddiant sydd ei angen i sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth i weithio ar lefel uwch (HEO/Band Rheoli 2). Isod mae rhestr o feini prawf a chymwyseddau y dylid gallu dangos tystiolaeth ohonynt erbyn diwedd yr interniaeth:

Meini prawf

Profiad o ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol drwy amrywiaeth o dechnegau wyneb yn wyneb ac ar-lein, gyda hanes llwyddiannus o weithio ar ymgyrchoedd cyfathrebu integredig;

Profiad o feithrin cysylltiadau rhagorol â rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

Cymwyseddau

Arweinyddiaeth

- Hyrwyddo negeseuon corfforaethol ac adrannol a sbarduno newid.

Gweithio gydag eraill a'u gwerthfawrogi

- Deall nodau ac amcanion corfforaethol ehangach, a bod yn ymwybodol o flaenoriaethau a materion gwleidyddol sensitif.
- Rheoli gwaith yng nghyd-destun amcanion cyffredinol y tîm.

Sicrhau canlyniadau i'n cwsmeriaid

- Rheoli cynnydd prosiectau a'r broses o'u cyflawni yn unol â'r canlyniadau a ddymunir.
- Bod yn gyfrifol am greu cysylltiadau cynhyrchiol â chwsmeriaid.

Defnyddio arbenigedd:

- Cyfleu arbenigedd mewn ffordd glir a chryno heb ddefnyddio jargon.
- Datblygu a chynnal gwybodaeth sy'n ymwneud â'r rôl a'r maes.

Ein Gwerthoedd :

Mae ein gwerthoedd yn rhan o bopeth a wnawn. Cyda'n gilydd, rydym wedi creu cyfres o werthoedd sy'n dathlu'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd, ac sy'n ein hatgoffa o bwy yr ydym a'r hyn sy'n bwysig inni.



PARCH

Rydym yn gynhwysol ac yn garedig, ac rydym yn gwerthfawrogi cyfraniadau ein gilydd wrth ddarparu gwasanaethau rhagorol



ANGERDD

Rydym yn bwrpasol wrth gefnogi democratiaeth, gan dynnu ynghyd i wneud gwahaniaeth i bobl Cymru



BALCHDER

Rydym yn arddel arloesedd ac yn dathlu ein llwyddiannau fel tîm

UN TÎM YDYM NI

Edrychwn ymlaen at weld sut y mae eich gwerthoedd yn cyd-fynd â'n gwerthoedd ni, er mwyn i chi allu ein helpu i feithrin diwylliant cadarnhaol a chynhwysol.

Ein hieithoedd swyddogol (Cymraeg a Saesneg):

Rydym yn gwbl ymrwymedig i wella ein gwasanaethau dwyieithog rhagorol yn barhaus ac i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog lle gall Aelodau o'r Senedd, y cyhoedd a'r staff ddewis gweithio neu gyfathrebu'n naturiol drwy ddefnyddio'r naill iaith swyddogol neu'r llall, neu'r ddwy iaith, a lle caiff y defnydd o'r ddwy iaith ei annog a'i hwyluso'n rhagweithiol.

Er nad ydym yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o'n staff fod yn rhugl yn ein dwy iaith swyddogol, rydym yn disgwyl iddynt oll ymrwymo i ddarparu gwasanaethau yn ein hieithoedd swyddogol. I'r graddau hynny, rydym yn disgwyl i bob aelod o staff sy'n cael ei benodi gan y Senedd fod â sgiliau lefel cwrteisi yn y Gymraeg, neu i gaffael y sgiliau hyn yn ystod cyfnod y cytunir arno. Caiff pob swydd ei hasesu yng nghyd-destun gallu'r maes gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'n cwsmeriaid ac mae rhai swyddi, felly, yn gofyn am lefel uwch o Gymraeg i hwyluso hynny, a nodir gofynion o'r fath uchod.

Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym yn awyddus i feithrin diwylliant cynhwysol yn ein sefydliad, gan ddenu a chadw'r ystod ehangaf o dalent ac, yn sgil hynny, sicrhau bod ein holl gyflogeion ac interniaid yn cyrraedd eu potensial llawn, ni waeth beth yw eu cefndir. Rydym am fod yn fwy cynrychioliadol o bob rhan o gymdeithas ar bob lefel yn y sefydliad.

Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer y Cynllun Interniaeth gan ystod amrywiol o bobl, o bob cefndir a chyda llawer o sgiliau, profiadau a safbwyntiau gwahanol. Rydym yn arbennig o awyddus i annog ceisiadau gan bobl anabl a phobl o gefndiroedd du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig, oherwydd nad oes cynrychiolaeth ddigonol o'r grwpiau hyn yn ein sefydliad ar hyn o bryd. Mae rhagor o wybodaeth am ein hymagwedd tuag at amrywiaeth a chynhwysiant ar gael [ar gael ar ein gwefan](#).

Caiff pob penodiad ei wneud yn ôl teilyngdod

Ymgeisiwch nawr!

Ceisiadau ar-lein yn agor	30 Tachwedd 2021
Sesiynau gwybodaeth rithwir	Wythnos yn dechrau 13 Rhagfyr 2021 (i'w gadarnhau)
Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau	3 Ionawr 2022
Canolfan Datblygu Aseidiadau Cymrodoriaeth Windsor (rhithwir)	10 Ionawr – 4 Chwefror 2022
Cyfweliad y Senedd (rhithwir)	Wythnos yn dechrau 14 Chwefror
Canlyniad	I'w gadarnhau
Clirio diogelwch a phreswyllo	Chwefror – Mawrth
Dyddiad cychwyn yr interniaeth	I'w gadarnhau

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rhaglen, cysylltwch â Roda AdenR@windsor-fellowship.org